# Lleisiau Pobl Ifanc: Teuluoedd Creadigol

## Mis Ionawr 2025 - Galw am Artistiaid ac Ymarferwyr Creadigol mewn unrhyw gyfrwng

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

**BETH?**

Mae Celfyddydau mewn Iechyd BIP Aneurin Bevan, CAMHS a thimau Seicoleg Plant a Theuluoedd yn chwilio am artistiaid i ymgysylltu â phobl ifanc a theuluoedd fel rhan o'u prosiect Celf a'r Meddwl, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring 2025–26, **Lleisiau Pobl Ifanc**.

**PAM?**

Trwy ein ***digwyddiadau dros dro, Teuluoedd Creadigol***, hoffem ymgysylltu ag amrywiaeth o artistiaid i gyflwyno gweithdai ymgysylltu creadigol yn y gymuned/lleoliadau celfyddydol. Bydd pobl ifanc (rhwng 13 a 17 oed) sy'n derbyn cymorth iechyd meddwl gan BIPAB, ynghyd ag aelodau o'r teulu/gofalwyr, yn cael eu gwahodd i ymuno â gweithdai creadigol sydd wedi'u dylunio i archwilio eu straeon a chasglu eu lleisiau i lywio arloesedd gwasanaeth.

Rydym eisiau defnyddio creadigrwydd fel modd chwareus o ymgysylltu â'n teuluoedd, a dysgu oddi wrthynt, tra'n cynnig mecanweithiau a chysylltiadau ychwanegol i helpu i lywio heriau iechyd meddwl gyda'n gilydd fel teulu.

**SUT?**

Bydd gofyn i artistiaid ddarparu gweithgaredd/gweithdy ymgysylltu creadigol dros dro ar gyfer teuluoedd gwahoddedig am hyd at 2 awr y sesiwn. Bydd gweithdai yn ymatebol ac yn hyblyg, gan ddarparu ffyrdd addas i deuluoedd gael mynediad gyda'i gilydd neu fel unigolion. Bydd gofyn i artistiaid rannu dysgu/themâu allweddol sy'n dod o'r gwaith.

**BLE?**

Bydd 1 digwyddiad yn cael ei gynnal ym mhob ardal o ranbarth BIPAB: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

**PRYD?**

Mis Chwefror - mis Mawrth 2025: Proses ymgeisio ac ymgysylltu ag artistiaid
Mis Ebrill - mis Hydref 2025: Cyflwyno yn ystod gwyliau ysgol / penwythnos lle bo modd. Rhannu themâu a chanfyddiadau allweddol.
Mis Tachwedd 2025: Gwerthusiad o'r prosiect wedi'i gwblhau.

**FFI:**

**1 diwrnod cyflwyno ar gael <u>fesul safle</u>**, ynghyd ag amser cynllunio â thâl ac amser myfyrio/gwerthuso i'w gytuno. Cyfradd ddyddiol ymarferydd celfyddydau cystadleuol; adlewyrchu sgil, profiad a gofynion prosiect e.e. rhwng £175-£275 yn dibynnu ar brofiad. Mae adnoddau ar gyfer y prosiect yn ychwanegol at y ffi hon.

**DYDDIAD CAU:** Mae'n rhaid i geisiadau gael eu derbyn erbyn **12pm dydd Gwener 21 Chwefror 2025**

**SUT I YMGEISIO:** Anfonwch y canlynol dros e-bost* at: ABB.ArtsinHealth@wales.nhs.uk

- Llythyr cyflwyniad byr (500 gair ar y mwyaf)
- Eich ymateb i'r briff (Ysgrifenedig: 750 gair / 2 dudalen A4 ar y mwyaf NEU fformat fideo os yw'n well gennych: 5 munud ar y mwyaf)
    - Dywedwch fwy wrthym am sut y byddech yn ymgysylltu â Phobl Ifanc a Theuluoedd sy'n defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl a pha fodd(au) a dulliau y byddech yn eu defnyddio.

- Sut y byddech yn sicrhau bod eich gwaith yn hygyrch, yn atyniadol ac yn annog pobl ifanc a theuluoedd i archwilio eu straeon a'u profiadau'n ddiogel?
- Disgrifiwch ganlyniadau'r gweithdai arfaethedig a sut y bydd themâu a straeon allweddol teuluoedd yn cael eu harchwilio a'u cofnodi ar gyfer eu rhannu o fewn y prosiect.

- Eich CV yn tynnu sylw at eich gwaith blaenorol yn y maes hwn ac unrhyw enghreifftiau neu gysylltiadau i waith a gynhyrchwyd ar y cyd â phobl ifanc y gallwch eu rhannu.

**Amlinellwch y canlynol:**

- Eich argaeledd hysbys, dyddiau / dyddiadau dewisol yn ystod gwyliau ysgol a phenwythnosau.
- Eich statws DBS a thystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.
- Rydym yn annog artistiaid sy'n cael eu tangynrychioli o fewn y celfyddydau i ymgeisio. Mae hyn yn cynnwys artistiaid sydd ag anableddau dysgu neu gyflyrau iechyd hirdymor, artistiaid niwrowahanol, artistiaid o gefndiroedd incwm isel, artistiaid LHDTC+ ac artistiaid o'r Mwyafrif Byd-eang. Croesawir cynigion gan artistiaid Cymraeg. Os oes gennych unrhyw ofynion mynediad y dylem fod yn ymwybodol ohonynt, o ran gwneud cais cychwynnol a/neu fod yn bresennol mewn cyfweliad, mae croeso i chi gysylltu â ni.

***Nodwch:** Mae'n rhaid i bob ffeil fod ar ffurf ***pdf, docx, jpg neu png***. Ar gyfer fformatau eraill neu ddolenni i yriannau cwmwl ar-lein, cysylltwch â ni cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Mae gennym wal dân diogelwch a all atal pethau rhag ein cyrraedd fel y bwriadwyd, felly os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â ni.

**BETH SY'N DIGWYDD NESAF?**

Byddwn yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr ar ôl y dyddiad cau. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad ar **11 neu 12 Mawrth** ar adeg sy'n gyfleus.

**Os hoffech unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â**: ABB.ArtsinHealth@wales.nhs.uk neu ffoniwch: Claire Turner ar 07989 140462, neu Sarah Goodey ar 07976 375781.

Cefnogir y prosiect hwn gan BIPAB, Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad Baring.